



**ADRODDIAD GAN Y  
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE  
REPORT**

## **Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006**

Mae'r gorchymyn hwn yn gweithredu deddfwriaeth y Gymuned ar fesurau ffytoiechydol brys dros dro i rwystro dod â *Phytophthora ramorum* i'r Gymuned ac i rwystro'i ledaenu o fewn y Gymuned i'r graddau y maent yn berthnasol i blanhigion ac eithrio coed fforestydd; ac ar y Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Chyddfederasiwn y Swistir ar fasnach a chynhyrchion amaethyddol i'r graddau y mae'n ymwneud â *Camellia*, *Rhododendron* a *Viburnum*.

### **Rheol Sefydlog 11.7**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Paragraff (a) o ddiffiniad y "pasbort planhigion" yn erthygl 2 yn cyfeirio at Atodlen 9. Nid oes Atodlen 9 i'r Gorchymyn hwn, a dylid felly ddiwygio'r diffiniad i esbonio mai cyfeirio a wneir at Atodlen 9 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr)1993 ("y prif Orchymyn") . [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae'r Gorchymyn hwn yn dibynnu ar ac yn cyfeirio at ddarpariaethau yn y prif Orchymyn sydd wedi'i ddirymu o ran Lloegr a'r Alban fel ei gilydd. Mae diffiniadau "tystysgrif ffytoiechydol" a "thystysgrif ffytoiechydol ar gyfer anfon ymlaen" yn erthygl 2 yn cyfeirio at Atodlenni 14 a 15 i'r prif Orchymyn yn

y drefn honno ac yn darparu bod y tystysgrifau ar y ffurfiau a geir yn yr Atodlenni hynny neu ar ffurf gyfatebol mewn iaith ac eithrio'r Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys y Gymraeg neu ieithoedd eraill y Gymuned, ond nid ffurfiau cyfatebol yn y Saesneg o rannau eraill y Deyrnas Unedig neu Weriniaeth Iwerddon. Efallai y byddai'n briodol aileirio'r diffiniadau hyn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg erthygl 11(1) yn cyfeirio at "a licence granted under the principal Order". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "dystysgrif [certificate] a roddwyd o dan y prif Orchymyn. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae Erthygl 13 yn darparu ar gyfer difa deunydd sy'n dueddol o gael y pla. Mae grym penodol i ddarparu ar gyfer hynny yn rhan 4(1)(a) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, na chyfeiriwyd ato yn y rhagarweiniad. Gellid gwneud hynny'n hawdd drwy ddileu'r cyfyngiad yn y cyfeiriad at ran 4(1) yn y rhagarweiniad drwy ddileu "(b)". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg erthygl 15(3) yn cyfeirio at "a false plant passport". Nid oes cyfeiriad cyfatebol at "ffug" [false] yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae testun Saesneg erthygl 15(3) yn cyfeirio at "the material for which the plant passport was issued". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "y deunydd sy'n dueddol o gael y pla y dyroddwyd y pasbort planhigion ar ei gyfer ydyw" ["the susceptible material for which the plant passport was issued"]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu argraffu yw'r rhain i gyd ac maent yn addas i'w cywiro o dan Femorandwm Cywiriadau.

## **Sylwadau**

Mae'r termau Cymraeg cyfatebol wedi'u gadael allan o'r testun Saesneg. Gan fod hyn o gymorth i'r sawl sy'n defnyddio'r ddau destun, dylid eu cynnwys bob tro.

## **David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**2 Mai 2006**